Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

17 Mai 2018

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | **Adroddiad Cyllid Diwedd y Flwyddyn** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **Cyfoeth Naturiol Cymru B B 19.18** |
| **Paratowyd y Papur gan:** | Andrea Morgan, Rheolwr Cyllid Busnes<br>Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Cyflwynwyd y Papur gan:** | Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Noddwyd y Papur gan:** | **Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu a Chymeradwyo** |
| **Argymhelliad:** | **Craffu:**<br>• Perfformiad ariannol ar gyfer 2017–18<br>**Cymeradwyo:**<br>• Contract caffael (gwerth dros £5 miliwn)<br>**Sylwer:**<br>• Anfonwyd eitemau at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf<br>• Newidiadau i'r gyllideb agoriadol ar gyfer 2018–19 yn dilyn cadarnhau arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | **Edrych ar y tymor hir:**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol flaenorol a'r flwyddyn bresennol; hefyd, mae rheoli cyllid yn gadarn yn elfen |

# Papur Bwrdd

| | |
|---|---|
| | bwysig o gynllunio ar gyfer y tymor hir.<br><br>**Gweithredu mewn ffordd integredig:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn ffordd gydweithredol:**<br><br>**Atal materion rhag digwydd:**<br>Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y camau sy'n cael eu gweithredu er mwyn lliniaru pwysau ariannol yn y dyfodol. |

## Mater

1. Rydym yn ysgrifennu ein hadroddiad a chyfrifon blynyddol ar gyfer 2017–18 ac ni fyddwn yn gwybod y sefyllfa derfynol nes iddynt gael eu cwblhau a'u harchwilio. Disgwylir i'r archwiliad ddod i ben erbyn diwedd Mehefin 2018.

2. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r canlyniadau ar 24 Ebrill 2018. Maent yn agored i newid, felly, ond ni fydd hyn yn sylweddol.

3. Yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2018, gwnaethom gytuno i gynnal dadansoddiad manwl o'r amrywiaethau yn y gyllideb yn 2017–18 ac y byddem yn adrodd ar y canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin.

4. Felly, gofynnir i'r Bwrdd graffu ar a rhoi sylwadau ynglŷn â'r perfformiad ariannol ar gyfer 2017–18, yn amodol ar yr adolygiad manylach hwnnw.

5. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol o ran y sefyllfa ariannol yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf a byddwn hefyd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd o ran canlyniad yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Crynodeb

6. Cyfanswm yr incwm oedd £211 miliwn a chyfanswm y gwariant oedd £176.3 miliwn. Felly, mae gennym gyfanswm arian o £34.7 miliwn, a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2018–19. Rydym wedi cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r swm a ddygir ymlaen gennym i 22% er mwyn caniatáu hyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

7. Gallwn ddwyn y lefel hon o arian ymlaen oherwydd:

   - Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian ychwanegol i ni ym mis Mawrth i'w ddwyn ymlaen
   - Rydym wedi derbyn arian arall gan Lywodraeth Cymru yn 2017–18 ar yr amod na fydd yn cael ei wario hyd 2018–19
   - Prosiectau eraill lle rydym wedi derbyn arian penodol (gan Lywodraeth Cymru neu ffynonellau eraill) y mae ein proffil gwariant wedi'u hestyn i'r flwyddyn ariannol nesaf (mae rhai o'r rhain yn eitemau sylweddol o waith lle nad oes unrhyw opsiwn i'w cyfnewid am eitemau eraill)
   - Meysydd eraill o wariant lle nad ydym wedi gwario'r gyllideb am amrywiaeth o resymau
   - Mae gennym fwy o incwm masnachol nag yr oeddem wedi cyllido ar ei gyfer, yn arbennig o ran incwm pren

8. Mae Atodiad 1 ac adran asesu'r adroddiad hwn yn rhoi esboniadau pellach ar gyfer y gwahaniaethau hyn.

9. Mae manylion cymeradwyaethau ariannol gan Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys hefyd, yn ogystal â chais i gymeradwyo contract gwerth dros £5 miliwn. Awdurdod dirprwyedig newydd yw hwn a briodolwyd i'r Bwrdd o ganlyniad i roi camau gweithredu ar waith a gododd o adolygiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

10. Mae Atodiad 2 yn cynnwys y gyllideb agoriadol derfynol ar gyfer 2018–19 yn dilyn cadarnhau arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a ddirprwywyd gan y Bwrdd i'w chymeradwyo i'r prif weithredwr. Mae llythyrau dirprwyo a chyllidebau wedi cael eu rhoi i gyfarwyddwyr a rheolwyr cyllideb.

## Asesiad

**<u>Perfformiad ariannol</u>**

11. Mae perfformiad ariannol yn yr adroddiad hwn wedi'i fesur yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ym mis Ionawr 2018. Gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ym mis Mawrth o ran y rhagolwg diweddaraf i ddiwedd y flwyddyn.

12. Cyfanswm yr incwm oedd £211 miliwn, a oedd £18.6 miliwn yn fwy na'n cyllideb ddiwygiedig. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i grant cymorth a dderbyniwyd ar gyfer 2018–19 (£13.4 miliwn) ac ar gyfer 2017–18 (£1.9 miliwn) a chynnydd mewn incwm masnachol (£3.3 miliwn), yn bennaf oherwydd gwerthiannau pren o ganlyniad i amodau marchnad ffafriol (£2.6 miliwn).

# Papur Bwrdd

13. Roedd y gwariant £5 miliwn yn is na'r gyllideb. Gwnaethom fanteisio ar y cyfle i dalu Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol swm o £5.7 miliwn. Bydd hwn yn cael ei ddidynnu gan daliadau yn 2018–19 (£3.7 miliwn) a 2019–20 (£2.0 miliwn). Bydd cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd hynny'n cael eu diwygio'n unol â hynny.

14. Gellir gweld rhagor o fanylion o ran perfformiad diwedd y flwyddyn yn Atodiad 1.

15. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau mewn incwm a gwariant ers y sefyllfa a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr.

| Year End Position - 2017-18 | Income £m | Expenditure £m | Balance £m |
|---|---|---|---|
| **Revised Budget at January 2018** | **192.4** | **181.4** | **11.0** |
| Additional Grant in Aid from Welsh Government | 15.3 | | 15.3 |
| Additional Income | 3.3 | | 3.3 |
| Directorate underspend at year end | | -7.0 | 7.0 |
| Changes in project delivery plans | | -3.8 | 3.8 |
| Payment to Pension Fund | | 5.7 | -5.7 |
| **Year End Position** | **211.0** | **176.3** | **34.7** |

**Arian a ddygwyd ymlaen ar gyfer 2018–19**

16. Byddwn yn cario £34.7 miliwn ymlaen o 2017–18 i 2018–19, ac mae hyn yn cael ei gategoreiddio fel a ganlyn:

- **Cyffredinol -** £12.1 miliwn, sef yr amrywiaeth net mewn incwm a gwariant sydd ar gael ar gyfer ail-flaenoriaethu. Mae ychydig o hyn eisoes wedi cael ei ddyrannu o fewn cyllideb agoriadol 2017-18. Yn ogystal â hyn, ni fydd yn rhaid i ni dalu £3.7 miliwn ar gyfer cyfraniadau pensiwn yn 2018-19, a thalwyd hyn yn 2017-18. Felly, mewn gwirionedd, bydd hynny yn ogystal â'r £12.1 miliwn a fydd ar gael ar gyfer ail-flaenoriaethu.

- **Penodol – cymorth grant ychwanegol –** £13.4 miliwn, sef lle rydym yn dwyn cymorth grant ychwanegol ymlaen a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'w wario

yn 2018–19. Mae hyn wedi cael ei ymgorffori i'r gyllideb agoriadol ac mae'r dadansoddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

- **Penodol – arall** – £9.2 miliwn – sef lle rydym yn dwyn arian ymlaen ar gyfer eitemau penodol lle y mae proffil cynlluniau gwariant wedi symud i 2018–19. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â phrosiectau penodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru megis adfer cloddfeydd metel, ymwreiddio’r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sefydlogi coed Pont Evans, cydymffurfiaeth cronfeydd dŵr, a Llwybr Arfordir Cymru.

**Cymeradwyaethau ariannol Llywodraeth Cymru**

17. Mae'r tabl isod yn dangos y cymeradwyaethau a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf.

| **Eitem** | **Gwerth** | **Disgrifiad** | **Cymeradwyaeth** |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Gyfalaf Cydymffurfiaeth Cronfeydd Dŵr | - | Dechrau rhaglen 2018–19 trwy ddefnyddio arian 2017–18 cyn i raglen 2018–19 gael ei chymeradwyo. Diben y rhaglen hon yw cwrdd â therfynau amser y Mesurau er mwyn Diogelwch. Bydd rhaglen waith 2018–19 yn dilyn ein llwybr llywodraethu safonol, y creffir arno gan ein bwrdd sicrwydd prosiect cyn mynd i'r prif weithredwr a'r Bwrdd. | Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru wedi'i sicrhau ar 16 Ebrill 2018 |
| Codi tâl ar gyfradd fasnachol | - | Gofynnwyd am gyngor ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i godi cyfradd fasnachol – lle nad yw'n glir yn nogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. | Yn aros am gymeradwyaeth |
| Trefniadau pontio ar gyfer contractau tymor hir | - | Gofynnwyd am gymeradwyaeth o ran y trefniadau pontio mewn perthynas â'u natur wreiddiol, gynhennus a sgil-effeithiol. | Yn aros am gymeradwyaeth |

# Papur Bwrdd

**Cymeradwyaeth y Bwrdd**

18. Mae cam gweithredu penodol yn codi o adroddiad ar gontractau hirdymor y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus lle rydym wedi dweud y bydd contractau gwariant sylweddol (>£5 miliwn) yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd. O ganlyniad i hyn, rydym yn gofyn i'r Bwrdd roi cymeradwyaeth i ni fynd ymlaen â'r ymarfer caffaeliad hwn.

Mae'r contract yn ymwneud â chyflenwi planhigion dros gyfnod o naw mlynedd gyda gwerth amcangyfrifiedig o £9 miliwn. Bydd y contract hwn yn cael ei ariannu gan gyllideb Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth a bydd yn cael ei dendro'n agored ac yn gystadleuol yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus.

Rydym yn fodlon fod hyn yn cydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol a'r rheoliadau caffaeliad. Nid ystyrir bod y contract hwn yn un a ellid fod yn wreiddiol, yn gynhennus, nac yn sgil-effeithiol.

Yn unol â'n polisïau Contractio ein Harian, mae'r contract hwn eisoes wedi cael ei gymeradwyo gan y staff.

Gan mai hwn yw'r contract cyntaf rydym yn ei gyfeirio at y Bwrdd i'w gymeradwyo, gofynnwn i'r Bwrdd ystyried a yw'r testun a nodir uchod yn ddigon manwl i chi ddod i benderfyniad yn ei gylch.

## Argymhellion

19. Gofynnir i'r Bwrdd:

**Craffu:**

- Perfformiad ariannol ar gyfer 2017–18

**Cymeradwyo:**

- Contract caffael (gwerth dros £5 miliwn)

**Sylwer:**

- Anfonwyd eitemau at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf

- Newidiadau i gyllideb agoriadol 2018–19 ar ôl cadarnhau arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

## Risgiau allweddol

# Papur Bwrdd

20. Fel yr esboniwyd uchod, rydym dal yn mynd drwy'r broses o derfynu ein sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'n destun archwiliad allanol. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw newidiadau arwyddocaol eraill i'r sefyllfa a amlinellir yn y papur. Os bydd unrhyw newid yn codi, bydd hyn yn effeithio ar y sefyllfa o ran dwyn arian ymlaen.

21. Mae'r ffordd rydym yn cyfathrebu'r sefyllfa hon i staff a rhanddeiliaid yn sensitif iawn o ystyried yr heriau ariannol rydym yn eu hwynebu gyda'n cyllid sylfaenol yn cael ei leihau ynghyd â'r hyn sy'n llywio ein Cynllun Sefydliadol ar gyfer 2019–20.

## Goblygiadau ariannol

22. Mae'r papur yn ymwneud â sefyllfa ariannol a pherfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi ar wahân i'r amser a dreuliwyd wrth greu'r ddogfen hon.

## Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

23. Nid oes angen cynnal un.

## Atodiadau

Atodiad 1 Adroddiad Perfformiad Diwedd y Flwyddyn

Atodiad 2 Cyllideb Agoriadol 2018–19